

## **Tlws Bryn Morris Jones**

Bryn Morris Jones oedd un o sefydlwyr y Gymdeithas Ddeintyddol ac ef oedd Cadeirydd y Gymdeithas pan fu farw'n frawychus o sydyn fis Chwefror 2012. Er coffadwriaeth amdano, penderfynodd y Gymdeithas Ddeintyddol sefydlu cystadleuaeth fyddai'n cael ei chynnal yn flynyddol yn y gynhadledd. Mae 'Tlws Bryn Morris Jones' yn cael ei gyflwyno i'r deintydd ifanc sydd yn rhoi'r cyflwyniad gorau mewn rhan arbennig o'r gynhadledd.

Roedd Bryn bob amser yn gefnogol i bobl ifainc a oedd yn dechrau ar eu gyrfa yn y byd deintyddol ac yntau'n ddeintydd oedd yn gweithio yn y gymuned, trin pobl ifainc oedd ei ddiddordeb pennaf. Priodol, felly, oedd i'r Gymdeithas gynnal cystadleuaeth i bobl ifainc yn benodol. Gyda hynny mewn golwg, penderfynodd aelodau Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas y dylai cystadleuaeth Tlws Bryn Morris Jones fod yn agored i fyfyrwyr a deintyddion sydd wedi graddio o fewn tair blynedd i ddyddiad y gynhadledd. Dylai'r cyflwyniad fod yn 15-20 munud o hyd ac yn seiliedig ar brosiect, gwaith ymchwil neu daith. Bydd pob cyflwyniad yn cael ei hasesu a'i marcio am y cyflwyniad ei hun, y cynnwys, y casgliadau, ei gwerth addysgiadol, safon yr iaith a'i gwreiddioldeb. Bydd yr enillydd yn derbyn Tlws arbennig er cof am Bryn yn ogystal â thystysgrif a gwobr ariannol.

Cynhaliwyd cystadleuaeth gyntaf Bryn Morris Jones yn y Gynhadledd yng Nghaerdydd yn 2013. Roedd pedwar ymgeisydd sef Lois Davies, Meilir Tee Evans, Huw Cadwaladr Owen ac Euros Jones.

Cyflwynodd Lois sgwrs dan y teitl 'Antur yn Uganda', sef ei hanes yn ymweld ag Uganda gyda'r elusen Dentaid. Daeth Meilir ymlaen yn syth o'r cae rygbi a chyflwynodd sgwrs yn seiliedig ar ei daith i Ghana gyda Brigâd Ddeintyddol Ysgol Ddeintyddol Caerdydd y flwyddyn honno. Trafod Llawdriniaeth Adferol ar y wefus yn dilyn brathiad dynol a wnaeth Huw Cadwaladr Owen gan roi disgrifiad manwl o un achos o frathiad sylweddol i'r wefus isaf. Yn olaf, daeth Euros ymlaen i gyflwyno sgwrs o dan y teitl 'Fy mhrofiad i o ddeintyddiaeth America Ladin'. Adroddodd Euros ei hanes yn ymweld â De America a'r Amazon a Brasil yn benodol, fel myfyriwr. Yn wir, roedd safon y gystadleuaeth yn uchel iawn a phob ymgeisydd wedi rhoi cyflwyniad proffesiynol tu hwnt ond Huw Cadwaladr Owen a'i sgwrs wreiddiol ac addysgiadol ar lawdriniaeth o'r wefus oedd yr enillydd. Cyflwynwyd Tlws a thystysgrif i Huw ar ddiwedd y sesiwn a chafodd ei glodfori'n swyddogol mewn seremoni wobrwyo yn ystod y swper arbennig a drefnwyd ar y cyd gyda'r meddygon. Llongyfarchiadau mawr, Huw!